***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Paragraff 22. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 6

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

22 (1) Mae Atodlen 1 (trosolwg o ddarpariaethau sylfaenol a ymgorfforir fel telerau contractau meddiannaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 2 (contractau safonol cyfnodol), yn nhabl 4—

(a) yn y cofnod ar gyfer adrannau 122 i 128, yn y drydedd golofn (nodiadau)—

(i) yn lle “122(1)(a)” rhodder “122(1)(b)”, a

(ii) hepgorer y geiriau o “Nid yw adrannau 125(1)(b) a 126 wedi eu hymgorffori” hyd y diwedd;

(b) yn y cofnod ar gyfer adrannau 173 i 180—

(i) yn lle’r testun yn y golofn gyntaf (darpariaeth sylfaenol) rhodder “Adrannau 173 i 175 a 177 i 180, a Rhan 1 o Atodlen 9A”;

(ii) yn lle’r testun yn y drydedd golofn (nodiadau) rhodder “Os nad yw adran 173 yn cael ei hymgorffori, nid yw adrannau 174 i 177A nac Atodlen 9A yn gymwys; ond os yw’r contract yn ymgorffori adran 173, rhaid ymgorffori Rhan 1 o Atodlen 9A heb addasiadau iddi. Mae adran 174A yn gymwys yn hytrach nag adran 174 i gontract sydd o fewn Atodlen 8A, ac nid yw adran 175 yn gymwys i gontract sydd o fewn Atodlen 9 (hyd yn oed os yw adran 173 wedi ei hymgorffori).”

(3) Yn Rhan 3 (contractau safonol cyfnod penodol), yn nhabl 5—

(a) yn y cofnod ar gyfer adran 186, yn lle’r testun yn y drydedd golofn (nodiadau) rhodder “Nid yw ond yn gymwys os yw’r contract o fewn Atodlen 9B. Os yw’r contract yn ymgorffori adran 186, rhaid ymgorffori Rhan 1 o Atodlen 9A heb addasiadau iddi.”;

(b) yn y cofnod ar gyfer adrannau 195 i 201—

(i) yn lle’r testun yn y golofn gyntaf (darpariaeth sylfaenol) rhodder “Adrannau 195, 195A a 196, a 198 i 201, a Rhan 1 o Atodlen 9A”;

(ii) yn lle’r testun yn y drydedd golofn (nodiadau) rhodder “Nid yw ond yn gymwys os yw’r contract yn cynnwys cymal terfynu’r landlord; ond os oes gan y contract gymal terfynu’r landlord, rhaid ymgorffori Rhan 1 o Atodlen 9A heb addasiadau iddi. Mae adran 195A yn gymwys yn lle adran 195 i gontract sydd o fewn Atodlen 8A, ac nid yw adran 196 yn gymwys i gontract sydd o fewn Atodlen 9.”

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 6 para. 22 mewn grym ar 7.6.2021, gweler **a. 19(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021, Paragraff 22.